

Llifogydd yng Nghymru

Rhagfyr 2020

Ein dull gweithredu

Cynhaliodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ('y Pwyllgor') ymchwiliad byr i ymateb Llywodraeth Cymru i'r Llifogydd a ddigwyddodd ym mis Chwefror 2020 yng Nghymru. Y bwriad oedd ymgymryd â'r gwaith yn fuan ar ôl y Llifogydd er mwyn archwilio ymateb uniongyrchol Llywodraeth Cymru i'r digwyddiadau. Yng ngoleuni'r coronafeirws COVID-19, bu'n rhaid gohirio'r gwaith tan hydref 2020.

Fe wnaethom ofyn am dystiolaeth ysgrifenedig gan awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae manylion y dystiolaeth ysgrifenedig a gafwyd i'w gweld ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Cawsom dystiolaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ('y Gweinidog') yn ein cyfarfod ar 8 Hydref 2020.

Ar 20 Hydref 2020, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru adolygiad o'i ymateb i'r Llifogydd a ddigwyddodd ym mis Chwefror 2020. Cytunwyd i ymestyn ein hymchwiliad i ystyried adroddiad adolygu Cyfoeth Naturiol Cymru. Cawsom dystiolaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ein cyfarfod ar 12 Tachwedd 2020.

Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein gwaith.



1. Trosolwg

- 1.** Cafodd y Llifogydd a welwyd ledled Cymru ym mis Chwefror 2020 effaith ddinistriol a hirhoedlog ar ein cymunedau. Disgrifiwyd y Llifogydd hyn, yn gwbl briodol, fel digwyddiadau eithriadol. Ond nid yw hyn fawr o gysur i'r rhai y cafodd eu cartrefi a'u busnesau eu difrodi ac sydd, fisoedd yn ddiweddarach, yn dal i ddod at eu hunain. Wrth i ni wynebu gaeaf arall, mae'r posibilrwydd o ragor o stormydd a Llifogydd yn frawychus, a dweud y lleiaf.
- 2.** Mae'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gyflym ac yn gadarnhaol i'r Llifogydd, gan ddarparu ystod o gymorth ariannol i awdurdodau a pherchnogion tai. Er bod hyn i'w ganmol, rydym o'r farn bod sawl mater a godwyd yn y dystiolaeth y mae angen eu hystyried ymhellach a/neu sy'n galw am gymryd camau pellach.
- 3.** Ystyrir yn gyffredinol bod effeithiau newid yn yr hinsawdd yn debygol o arwain at dywydd mwy eithafol ac, yn ei sgil, mwy o lifogydd tebyg i'r rhai a gafwyd ar ddechrau'r flwyddyn hon. Gan ystyried hyn, mae'n bwysicach nag erioed bod gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid drefniadau cadarn ar waith i ymateb i ddigwyddiadau o'r fath. Rhaid i'r trefniadau hyn fod yn rhan o ddull strategol gwell o atal Llifogydd a rheoli perygl Llifogydd lle ceir lefel briodol o fuddsoddiad.
- 4.** Mae'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu bod angen i Lywodraeth Cymru gael sgysiau anodd gyda'i phartneriaid, a gyda chymunedau ledled Cymru, ynghylch ble a sut i fuddsoddi, a'r hyn y gellir ei gyflawni'n rhesymol, ag adnoddau cyfyngedig. Bydd cynnwys cymunedau wrth wneud penderfyniadau yn rhan bwysig o hyn, gan sicrhau bod gan gymunedau well dealltwriaeth o'r math o fesurau ac ymyriadau ymarferol sydd eu hangen i atal Llifogydd, a dealltwriaeth a mewnbwn i'r modd y mae cyllid yn cael ei gyfeirio yn eu cymuned.
- 5.** Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cipolwg ar yr ymateb i'r Llifogydd a ddigwyddodd ym mis Chwefror 2020 ac yn cyffwrdd â materion ehangach sy'n gysylltiedig â rheoli perygl Llifogydd. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru ('Strategaeth Genedlaethol newydd') yn ddiweddar. Oherwydd amseriad y cyhoeddiad, nid ydym wedi cael cyfle i'w ystyried yn fanwl. Rydym o'r farn bod darn mwy sylweddol o waith i'w wneud ar weithredu'r Strategaeth Genedlaethol newydd, gan edrych ar ei heffeithiolrwydd o ran lleihau perygl Llifogydd mewn cymunedau. Rydym yn bwriadu cynnwys hyn yn ein Hadroddiad Etifeddiaeth er mwyn i'n holnydd yn y Chweched Senedd ei ystyried.

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor cyn diwedd tymor y Senedd hon gan amlinellu ei barn ar weithredu'r Strategaeth Genedlaethol newydd yn ystod y Gaeaf cyntaf ers ei chyflwyno. Dylai hyn nodi a yw'n credu y bydd angen gwneud newidiadau i'r Strategaeth ai peidio.

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog nodi beth yw ymgysylltu cymunedol effeithiol mewn perthynas â rheoli perygl llifogydd. Dylai egluro sut mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cefnogi awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau ymgysylltiad cymunedol effeithiol ac egluro a fydd adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu at y diben hwn.

2. Cyllid brys

- 6.** Er bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn croesawu ymateb cadarnhaol iawn Llywodraeth Cymru i'r Llifogydd, dywedodd wrthym mai'r farn oedd bod y Cynllun Cymorth Ariannol Brys ('EFAS') ar gyfer costau refeniw yn annigonol oherwydd y cyfraddau grant a'r trothwy cyfredol, a oedd yn golygu bod cynghorau ar eu colled .
- 7.** Clywsom fod llunio hawliad EFAS yn golygu gwaith sylweddol i awdurdodau, y gofynnwyd iddynt hefyd nodi costau adfer ar ôl y Llifogydd.
- 8.** Cafodd awdurdodau anawsterau hefyd i wneud defnydd llawn o gyllid brys cyn y dyddiad cau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Roedd hyn i'w briodoli i ddiffyg capasiti ac oherwydd, ar yr adeg honno, bod rhai ardaloedd yn dal i ddiodef Llifogydd, a oedd yn llesteirio gwaith atgyweirio brys. Clywsom fod dargyfeirio adnoddau i ganolbwyntio ymdrechion ar wneud defnydd llawn o gyllid brys yn effeithio ar gyflawni swyddogaethau rhaglen rheoli Llifogydd ac erydu arfordirol statudol.
- 9.** Rydym yn croesawu'r cymorth ariannol a ddarperir yn uniongyrchol i breswylwyr drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol. I rai cartrefi, bu hyn yn achubiaeth ariannol fawr ei hangen yn ystod cyfnod heriol dros ben. Nodwn, fodd bynnag, mai awdurdodau a oedd yn gyfrifol am reoli cheisiadau i'r gronfa hon, gan gynnwys cynnal ymweliadau cartref i leihau'r risg o hawliadau ffug. Dywedodd CLILC wrthym fod hyn wedi rhoi mwy o straen ar wasanaethau a oedd eisoes wedi'u gorlethu, gan effeithio eto ar eu gallu i ganolbwyntio ar waith brys ac adfer. Nododd Cyngor Sir Fynwy nad yw'r costau sylweddol sy'n gysylltiedig â cheisiadau i'r Gronfa Cymorth Dewisol wedi'u hadennill ac nad ydynt yn gymwys o dan grant EFAS.

Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog ystyried a yw'n bosibl cael gwared ar gyfyngiadau 'diwedd blwyddyn' ar gyfer cyllid brys.

Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog egluro pa gymorth ariannol a oedd ar gael i awdurdodau lleol i dalu am unrhyw gynnydd mewn costau yn deillio o reoli'r Gronfa Cymorth Dewisol yn dilyn y Llifogydd.

3. Cyllid gan Lywodraeth y DU ar gyfer gwaith atgyweirio

10. Rydym yn pryderu ynghylch yr ansicrwydd parhaus o ran lefel y cyllid a fydd ar gael i awdurdodau dalu costau atgyweirio cyfalaf yn dilyn y Llifogydd ym mis Chwefror.

11. Pan ddechreuodd y Llifogydd, dywedodd Prif Weinidog y DU wrth Dŷ'r Cyffredin y byddai cyllid ar gael i Lywodraeth Cymru at y diben hwn. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch lefel y cyllid yn parhau. Dywedodd wrthym hefyd, pe bai Llywodraeth y DU yn methu â chyflawni'r ymrwymiad, nad oes cynllun amgen ac y byddai'n aruthrol o anodd dod o hyd i gyllid i dalu cost y gwaith atgyweirio.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa waith y mae wedi'i wneud i asesu lefel y cyllid y bydd ei angen i dalu costau cyfalaf o ran atgyweirio. Dylai hefyd egluro pa lefel o gyllid y gofynnwyd amdani gan Lywodraeth y DU at y diben hwn.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ddiweddaraf o ran sicrhau cyllid gan Lywodraeth y DU i dalu costau atgyweirio cyfalaf, gan gynnwys lefel y cyllid y cytunwyd arno a phryd y mae'n debygol y bydd ar gael i awdurdodau lleol. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd amlinellu pa ystyriaeth bellach a roddwyd i drefniadau wrth gefn os nad yw Llywodraeth y DU yn darparu lefel briodol o gyllid.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynglŷn a'r asesiad diweddaraf a wnaed o'r gost o sicrhau diogelwch tomennydd glo, ac ar y cynnydd o ran sicrhau cyllid gan Lywodraeth y DU.

4. Y rhaglen rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ehangach

12. Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud buddsoddiad sylweddol o ran rheoli llifogydd yn ystod tymor y Pumed Senedd a, hyd yma, wedi cyflawni gwerth £390 miliwn o weithgareddau rheoli llifogydd. Er gwaethaf hyn, clywsom fod angen lefel uwch o fuddsoddiad yn y tymor hwy i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn effeithiol, gan gydnabod her gynyddol newid yn yr hinsawdd.

Cyllid refeniw awdurdodau lleol

13. Er bod cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn croesawu'r cynnydd diweddar mewn cyllid refeniw, dywedodd CLILC ei fod yn parhau i fod yn annigonol i gynyddu cydnerthedd gwasanaethau llifogydd cynghorau ac i fabwysiadu dull rhagweithiol o reoli perygl llifogydd. Clywsom fod hyn yn rhwystro gallu awdurdodau i archwilio, ymchwilio a rheoli asedau presennol, darparu mwy o gynlluniau cyfalaf a chyflogi staff ychwanegol. Yn ôl CLILC, mae lefel bresennol y cyllid refeniw yn golygu bod awdurdodau ymhell o fod yn gwbl barod a chydnerth.

14. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod cyllid refeniw rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol yn rhoi help llaw i awdurdodau a ddylai hefyd ddefnyddio eu Grant Cynnal Refeniw i gyflawni eu dyletswyddau llifogydd statudol. Fodd bynnag, honnodd CLILC fod hyn yn afrealistig yn wyneb toriadau parhaus i gyllidebau llywodraeth leol.

15. Nodwn fod awdurdodau yn derbyn yr un lefel o gyllid refeniw waeth beth fo'r perygl o lifogydd yn eu hardal. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef un o'r ardaloedd a gafodd ei tharo waethaf gan lifogydd mis Chwefror, ei bod yn derbyn 4.54% (1/22) o'r cyllid refeniw cenedlaethol, er yr amcangyfrifir eu bod yn rheoli 21% o'r perygl llifogydd dŵr wyneb cenedlaethol. Yn ôl Rhondda Cynon Taf, o safbwynt risg gyfrannol nid oes digon o arian yn cael ei neilltuo i gefnogi ei swyddogaethau rheoli perygl llifogydd.

16. Esboniodd y Gweinidog fod newidiadau wedi'u gwneud i'r ffordd y mae refeniw yn cael ei ddyrannu er mwyn lleihau cymhlethdod a baich gweinyddol. Er ein bod yn cydnabod y rhesymeg dros y newidiadau hyn, rydym yn cwestiynu pam nad yw dull Llywodraeth Cymru o ddyrannu refeniw yn ystyried perygl llifogydd.

17. Mae'n anodd inni gysoni barn y Gweinidog ar lefelau cyllid refeniw presennol â barn cynrychiolwyr awdurdodau lleol. Ond, mae'r posibilrwydd na fydd awdurdodau'n wedi'u paratoi'n ddigonol i wynebu rhagor o lifogydd yn destun pryder mawr inni. Hefyd, nodwn y bydd angen mewnbwn gan awdurdodau lleol ar sawl un o'r Mesurau a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol newydd. Nid yw'n eglur beth fydd goblygiadau cost y rhain.

Argymhelliad 8. Dylai dull Llywodraeth Cymru o ddyrannu refeniw ar gyfer llifogydd ystyried y perygl presennol a'r perygl o lifogydd a ragwelir yn y dyfodol mewn ardaloedd awdurdodau lleol.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion y gwaith a wnaed i asesu costau refeniw awdurdodau lleol o ran cyflawni'r Mesurau a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol newydd, ac egluro a fydd cyllid ychwanegol ar gael i dalu'r costau hyn.

Cyllid cyfalaf awdurdodau lleol

18. Mae'r dystiolaeth a gawsom gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol yn awgrymu, ar y cyfan, bod lefel y cyllid cyfalaf sydd ar gael ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn ddigonol. Fodd bynnag, mae hyn yn bennaf oherwydd diffyg capasiti i gyflawni mwy o gynlluniau.

19. Dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod wedi dileu'r holl rwystrau cyllido i alluogi awdurdodau lleol i gyflawni cynlluniau. Mae hyn yn cynnwys darparu 100% o gyllid ar gyfer paratoi a dylunio cynlluniau newydd ar gyfer llifogydd a chodi cyfraddau grant ar gyfer adeiladu amddiffynfeydd arfordirol i 85%.

20. Er bod CLILC yn croesawu'r newidiadau cadarnhaol iawn hyn, roedd yn dadlau bod cynlluniau cyllid cyfatebol yn dal i beri problemau, yn wyneb cyfyngiadau ariannol parhaus.

21. Clywsom gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili am ôl-groniad o gynlluniau sydd angen cyllid. Hefyd, roedd awdurdodau'n rhagweld cynnydd yn nifer y cynlluniau sydd eu hangen i gyflawni'r uchelgeisiau yn y Strategaeth Genedlaethol newydd, a byddai angen cynyddu lefel y buddsoddiad cyfalaf.

22. Amlygodd y dystiolaeth a gawsom fod y meini prawf cymhwyster ar gyfer cyllid cyfalaf i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn gyfyngol. Rhaid i bob cynllun ddangos eu bod yn lleihau'r perygl i fywyd drwy leihau'r perygl i gartrefi. Pwysleisiodd CLILC fod cysylltiad annatod rhwng rheoli perygl llifogydd, yn enwedig llifogydd dŵr wyneb, a rheoli priffyrdd a thir. Fodd bynnag, yn aml nid yw gwelliannau i'r seilwaith priffyrdd i leihau'r perygl o lifogydd yn gymwys.

23. Galwodd Cyngor Sir Fynwy am wella cyllid ar gyfer systemau draenio priffyrdd. Pwysleisiodd fod gan systemau draenio priffyrdd yn aml rôl hollbwysig o ran atal llifogydd ac y dylid eu trin fel asedau amddiffyn rhag llifogydd lle maent yn darparu swyddogaeth o'r fath.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa asesiad a wnaed o gostau cyfalaf awdurdodau lleol o ran cyflawni'r Strategaeth Genedlaethol newydd. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd egluro'r trafodaethau y mae wedi'u cael ag awdurdodau ynghylch sut y bydd y costau hyn yn cael eu talu, o ystyried trefniadau cyllido presennol awdurdodau.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa gyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol dalu costau gwelliannau i'r seilwaith priffyrdd i leihau perygl llifogydd, ac ar gyfer gwaith atgyweirio ar ôl llifogydd.

5. Adolygiad Cyfoeth Naturiol Cymru o'i ymateb i lifogydd Chwefror 2020

- 24.** Rydym yn croesawu cyhoeddi adolygiad Cyfoeth Naturiol Cymru o'i ymateb i'r llifogydd ym mis Chwefror 2020. Mae Crynodeb Data Digwyddiad Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi trosolwg defnyddiol o faint, graddfa ac effeithiau'r llifogydd. Mae'n amlygu natur eithriadol y digwyddiadau a maint y dasg a wynebair Cyfoeth Naturiol Cymru ac ymatebwyr eraill yn ystod y cyfnod hwnnw.
- 25.** Yn ei adroddiad adolygu a'r dystiolaeth ddilynol inni, eglurodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod llawer o'i strwythurau a'i systemau wedi gweithio'n dda, gan amddiffyn nifer fawr o gymunedau ac eiddo. Fodd bynnag, cafodd ei rôl a'i wasanaethau eu profi'n arw yn ystod y digwyddiadau ac, mewn rhai achosion cafodd gwasanaethau eu hystyngiadau y tu hwnt i'w gallu.
- 26.** Mae adroddiad Adolygiad Rheoli Digwyddiadau Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn canolbwyntio ar y gwersi a ddysgwyd o'r llifogydd a lle y dylid gwella. Crynhoir y 10 maes allweddol i'w gwella yng nghynllun gweithredu Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n cyd-fynd â'r adroddiad. Yn ôl yr adroddiad, amcangyfrifir yn fras y bydd angen 60-70 aelod o staff uwchlaw'r llinell sylfaen gyfredol dros y tymor hwy i gynnal y gwasanaeth cyffredinol ar y lefelau a ddisgrifir gan y camau gweithredu a'r gwelliannau yn yr adroddiad.
- 27.** Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrthym ei fod wedi derbyn £1.25 miliwn yn ychwanegol mewn cyllid refeniw ar gyfer 2020-21, a ddefnyddiwyd i gyflogi 36 gweithiwr cyfwerth ag amser llawn i helpu symud y gwaith gwella yn ei flaen. Fodd bynnag, nid yw'n sicr a fydd y cyllid refeniw ychwanegol hwn yn parhau yn y flwyddyn ariannol nesaf.
- 28.** Clywsom fod gan Cyfoeth Naturiol Cymru rôl allweddol o ran gweithredu'r mesurau yn y Strategaeth Genedlaethol newydd, gan arwain neu arwain ar y cyd ar 12 o'r mesurau, ac ymwneud i amrywiol raddau â'r 12 mesur sy'n weddill. Esboniodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod rhai o'r rhain yn ychwanegol at neu'n estyniad i'w gyfrifoldeb presennol a phwysleisiodd y byddai angen cyllid refeniw ychwanegol arnynt i roi'r Strategaeth Genedlaethol newydd ar waith yn llawn.
- 29.** Mewn adroddiadau olynol ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru a gohebiaeth amrywiol â'r Gweinidog, rydym wedi mynegi ein pryderon ynghylch lefel y cyllid sydd ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol a chyflawni ei gyfrifoldebau. Mae'n resyn nad yw'r Gweinidog, hyd yma,

wedi rhoi'r lefel o sicrwydd rydym yn ei geisio ar y mater hwn. Mae ein gwaith ar lifogydd mis Chwefror wedi dwysáu ein pryderon.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa asesiad a wnaed o gostau refeniw Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn cyflawni pob un o'r Mesurau perthnasol a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol newydd, ac egluro a fydd cyllid ychwanegol ar gael i dalu'r costau hyn.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei barn ynghylch tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru y bydd angen oddeutu 60 i 70 o staff uwchlaw'r llinell sylfaen bresennol i sicrhau gwelliannau cynaliadwy, hirdymor mewn gwasanaethau rheoli llifogydd.

6. Cynllunio

- 30.** Mae osgoi datblygiadau amhriodol mewn ardaloedd lle mae perygl o lifogydd yn hanfodol er mwyn lleihau'r perygl presennol o lifogydd ac atal llifogydd yn y dyfodol. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i bolisiâu cynllunio a llifogydd fod yn gyson â'i gilydd, gyda phenderfyniadau'n cael eu seilio ar ddata perygl llifogydd cadarn.
- 31.** Nodwn y bydd fersiwn ddiwygiedig o Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, Llifogydd ac erydu arfordirol ('TAN 15') ar gael erbyn 2021. Esboniodd Cyfoeth Naturiol Cymru y byddai hyn yn helpu i gefnogi penderfyniadau cynllunio ond awgrymodd fod angen i awdurdodau fod yn ddewr a gwrthod caniatâd cynllunio ar sail ei gyngor.
- 32.** Dywedodd y Gweinidog wrthym y bydd gwasanaeth mapio Asesiad Perygl Llifogydd Cymru newydd ar gael ochr yn ochr â'r Strategaeth Genedlaethol newydd, a fydd yn gwella gwybodaeth am berygl llifogydd ac arfordirol. Ychwanegodd ei swyddog fod gwelliannau'n cynnwys mapio risg o bob ffynhonnell, er enghraifft, dŵr wyneb a chysiau dŵr llai, yn ogystal ag afonydd a'r moroedd. Esboniodd, lle nad oedd data ar gael ar gyfer rhai cysiau dŵr, y defnyddir modelu i helpu nodi risg.
- 33.** Mae'r Strategaeth Genedlaethol newydd yn cynnwys ystod o Fesurau i wella mapio a data perygl llifogydd ac yn nodi amserlen ar gyfer diweddariadau. Er ein bod yn croesawu hyn, rydym yn pryderu, heb y lefel briodol o gyllid refeniw, y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anodd eu cynnal. Rydym eisoes wedi nodi ein barn ar gyllid refeniw ar gyfer awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru.
- 34.** Rydym yn cydnabod bod camau eisoes wedi'u cymryd i reoli draeniad dŵr wyneb yn yr amgylchedd trefol drwy gyflwyno gofyniad am Systemau Draenio Cynaliadwy ('SuDS') mewn datblygiadau newydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gynnal adolygiad o effeithiolrwydd SuDs yn 2021. Rydym yn croesawu hyn ac yn edrych ymlaen at ganlyniad yr adolygiad.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pryd y bydd y TAN 15 diwygiedig ar gael ac egluro sut mae'r diwygiadau'n adlewyrchu'r angen am safbwynt cryfach ar atal llifogydd.

Atodiad A: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
FL01	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
FL02	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
FL03	Cyngor Sir Fynwy
FL04	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
FL05	Cyfoeth Naturiol Cymru

Atodiad B: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
8 Hydref 2020	<p>Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig</p> <p>Gian Marco Currado, Llywodraeth Cymru</p> <p>Andy Fraser, Llywodraeth Cymru</p> <p>James Morris, Llywodraeth Cymru</p>
12 Tachwedd 2020	<p>Syr David Henshaw, Cyfoeth Naturiol Cymru</p> <p>Clare Pillman, Cyfoeth Naturiol Cymru</p> <p>Ceri Davies, Cyfoeth Naturiol Cymru</p> <p>Jeremy Parr, Cyfoeth Naturiol Cymru</p>